

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT

CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

ADRODDIAD BLYNYDDOL

Asesiad o'n perfformiad yn 2017-2018



Os oes angen yr wybodaeth hon arnoch mewn print bras neu mewn fformat arall, ffoniwch y Tîm Polisi Corfforaethol ar 01639 763010 neu e-bostiwch polisi@npt.gov.uk
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

Adran 1 – Deddfwriaeth Cydraddoldeb	2
Adran 2 – Trosolwg o gynnydd.....	4
Adran 3 – Cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o’n Hamcanion Cydraddoldeb.....	5
Adran 5 – Dweud eich dweud	27
Adran 6 – Mesurau perfformiad	28

Adran 1 - Deddfwriaeth Cydraddoldeb

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010, drwy gyfuno a disodli'r ddeddfwriaeth flaenorol ar wrth-wahaniaethu, wedi symleiddio a chryfhau'r gyfraith, gan gael gwared ar anghysondebau a'i gwneud yn haws i bawb ei deall. Drwy roi'r Ddeddf ar waith, byddwn yn gweithio i greu cymdeithas decach, gwella gwasanaethau cyhoeddus, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau hirsefydlog ac, yn y pen draw, wella bywydau pobl.

O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i'r cyngor, ynghyd â chyrrff cyhoeddus eraill, roi ystyriaeth briodol i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu a fictimeiddio, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da ymhlith a rhwng pobl sy'n perthyn i wahanol grwpiau gwarchoddedig (adnabyddir hyn fel Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus).

Dyma'r grwpiau neu'r nodweddion gwarchoddedig:

- oedran
- ailbennu rhywedd
- rhyw
- hil
- anabledd
- beichiogrwydd a mamolaeth
- tueddfryd rhywiol
- crefydd a chred
- priodas a phartneriaeth sifil (o ran yr angen i ddileu gwahaniaethu'n unig)

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

Yng Nghymru, mae dyletswyddau penodol wedi cael eu cyflwyno i'n helpu i gyflawni dyletswydd y sector cyhoeddus ac mae'r rhain yn cynnwys llunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) a datblygu a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb.

Lluniwyd yr Adroddiad Blynyddol hwn o dan Adran 16 (1) Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau

Statudol) (Cymru) ac mae'n nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'n hamcanion cydraddoldeb a nodwyd yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mesur y Gymraeg 2011

Rhoddodd y Mesur statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, sefydlodd rôl Comisiynydd y Gymraeg, creodd weithdrefn er mwyn cyflwyno dyletswyddau ar ffurf safonau iaith a darparodd ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ymysg darpariaethau eraill.

Rôl Comisiynydd y Gymraeg yw hyrwyddo'r Gymraeg, a gwella'r cyfleoedd sydd gan bobl i'w defnyddio, drwy pwysleisio statws swyddogol yr iaith yng Nghymru, a gosod safonau ar sefydliadau.

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015

Mae'r rheoliadau hyn, a osodwyd ar gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru, yn cynnwys amrywiaeth o safonau ymddygiad ynghylch y Gymraeg. Cafodd y safonau eu grwpio fel a ganlyn:

- cyflwyno gwasanaethau
- llunio polisiau
- gweithredol
- hyrwyddo
- cadw cofnodion

Lluniwyd [Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2017-2018](#), yn unol â'r rheoliadau hyn, sy'n nodi sut yr ydym wedi cydymffurfio â'r safonau yn ystod y flwyddyn.

Adran 2 - Trosolwg o gynnydd

Mae ein gwaith yn ystod 2017-2018 wedi bod yn canolbwyntio ar gyfuno a myfyrio; cyfnod i gyfuno'r gwaith a wnaed yn flaenorol a chyfle i fyfyrion ar ei weithrediad ac effaith ein gweithrediadau ar wella profiadau pobl.

Rydym yn ymwybodol iawn yn y cyfnod hwn o anawsterau ariannol bod ein gallu i gynnal rhaglenni gwaith sylweddol er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau wedi bod yn gyfyngedig ond rydym wedi cymryd cyfleoedd i adeiladu ar drefniadau arfer da ac i atgyfnerthu egwyddorion hanfodol yn y cyngor.

Mae rhai o uchafbwyntiau'r flwyddyn yn cynnwys:

- Proffil cymunedol - cynhaliwyd darn allweddol o waith er mwyn deall ein Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig a Du'n well, yn ogystal â'u profiadau o fyw yn yr ardal a'r problemau y maent yn eu hwynebu o ran cael mynediad at wasanaethau, gan y Gymdeithas Gymunedol Lleiafrifoedd Ethnig a Du wedi'i gefnogi gan Gyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot a'r Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol. Bydd canlyniadau'r ymarfer yn helpu i lywio ein gwaith wrth symud ymlaen.
- Criw Croch - cynhaliwyd rhwng 3 ac 14 Gorffennaf 2017 ar gyfer 1,647 o ddisgyblion Blwyddyn 6 o 52 o ysgolion gyda 12 o asiantaethau partner yn bresennol er mwyn cyflwyno gwybodaeth am ddiogelwch.
- Perthnasoedd Iach ar gyfer Cymunedau Cryfach - gwnaed cynnydd sylweddol wrth weithredu'r Strategaeth Perthnasoedd Iach ar gyfer Cymunedau Cryfach (yr enw newydd ar Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Castell-nedd Port Talbot). Mae hon yn cynnwys ymgyrchoedd llwyddiannus megis Diwrnod y Rhuban Gwyn, cynnal ymarfer mapio gwasanaeth, cyflwyno Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a gwella'r gwasanaethau Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol.

Erys deall effaith ein polisiâu a'n gwasanaethau ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig yn rhan allweddol o'n gwaith. Rydym wedi edrych ar ein dulliau casglu data presennol i sicrhau eu bod yn addas at y diben, wedi sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol, lle rydym wedi nodi bod bylchau, rydym wedi gweithio gyda grwpiau perthnasol i wella ein cyd-ddealltwriaeth. Mae'r gwaith hwn wedi darparu sylfaen gadarn i wneud cynnydd dros y flwyddyn nesaf er mwyn lleihau/cael gwared ar unrhyw rwystrau sylweddol y mae rhai grwpiau gwarchoddedig yn eu hwynebu'n ddyddiol sy'n effeithio ar eu cyfranogiad yn y gymuned ac wrth gael mynediad at wasanaethau.

Adran 3 - Cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'n Hamcanion Cydraddoldeb

Amcan Cydraddoldeb 1: Mynd i'r afael ag aflonyddu, gwahaniaethu a bygythiadau eraill i ddiogelwch personol a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig

1. Cynyddu ymwybyddiaeth o droseddau casineb a rhoi gwybod amdanynt

Beth wnaethom ni?

- Mae'r Swyddog Datblygu BME, a benodwyd ym mis Hydref 2016, wedi dechrau rhaglen waith sy'n cynnwys creu proffil ar gyfer cymunedau BME yr ardal. Yn ogystal â defnyddio'r wybodaeth i ddeall barn cymunedau am Gastell-nedd Port Talbot yn well, bydd profiadau o ddigwyddiadau/droseddau casineb a rennir gan ymatebwyr yn cael eu defnyddio i gynyddu ymwybyddiaeth/hyfforddi gweithdrefnau adrodd presennol.
- Tynnwyd sylw swyddogion perthnasol y cyngor at bryderon am ddiogelwch preswylwyr ar safle Cae Garw mewn perthynas â'r swm uchel o dipio anghyfreithlon ar un o'r lleiniau gwag. Yn dilyn adolygiad, cyflogwyd contractwr gan y cyngor i glirio'r ardal i osgoi rhoi'r bai ar ardaloedd penodol o'r gymuned ac i osgoi unrhyw achosion o droseddau casineb.
- Roedd y Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol yn rhan o'r Grŵp Cynllunio a ddatblygodd galendr o ddigwyddiadau ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb (14-22 Hydref 2017). Roedd hyn yn cynnwys amserlen fanwl ar gyfer troseddau casineb a grëwyd i gynnwys ardaloedd heddlu Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ac, o ganlyniad i'r gwaith hwn ar y cyd, mae Cymorth i Ddiodefwrwr wedi ein gwobrwyo gyda Seren Aur.
- Cyflwynwyd nifer o weithdai mewn ysgolion yn ystod wythnos ymwybyddiaeth o droseddau casineb ac roedd tîm MEAS (Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig) hefyd wedi cynnal digwyddiad poblogaidd i ddathlu Mis Hanes Pobl Dduon.
- Mae Cymorth i Ddiodefwrwr yn cymryd rhan weithredol wrth gyflwyno'r mentrau sy'n ymwneud â throseddau casineb. Er enghraifft, cyd-ddyluniodd a chyd-gyflwynodd y Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol

hyfforddiant 'hyfforddi'r hyfforddwr' ar droseddau casineb i staff y cyngor.

- Mae'r hyfforddiant ar-lein at gyfer troseddau casineb wedi'i ddiweddarau'n ddiweddar ac ychwanegwyd rhif cyswllt y ganolfan adrodd Cymorth i Ddiodefwr trydydd parti ato. Mae Prifysgol Abertawe wedi sicrhau bod yr adnodd troseddau casineb ar-lein ar gael i'w staff.
- Cynhaliwyd ymarfer 'Proffil Cymunedol' Castell-nedd Port Talbot mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig a du. Cynhaliwyd digwyddiadau cynnwys gyda phobl o amrywiaeth o gefndiroedd e.e. Rwmanaidd, Tamil, Bangladeshaid, Pacistanaidd a chymunedau eraill dwyrain Ewrop. Nodwyd digwyddiadau/troseddau casineb fel problem allweddol yn yr ymarfer proffilio a chaiff camau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â hyn a materion eraill eu hystyried gan y Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol y mae'r Gymdeithas Gymunedol BME yn aelod ohono.
- Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth wedi cyflwyno 10 gweithdy (dros 900 o ddisgyblion) ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghastell-nedd Port Talbot.
- Mae 'Small Steps' hefyd wedi cyflwyno 15 gweithdy Ymwybyddiaeth o Eithafiaeth Asgell Dde a ariennir gan Gymunedau'n Gyntaf i dros 170 o blant a phobl ifanc yng nghlybiau ieuenctid ac ysgolion cyfun Castell-nedd Port Talbot, gyda'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth o faterion eithafiaeth asgell dde yn yr ardal.

2. Cryfhau gwaith partneriaeth i fynd i'r afael â cham-drin domestig a sefydlu dulliau amlasiantaeth i gefnogi pobl sydd mewn perygl o gael eu denu i droseddau difrifol a throseddau cyfundrefnol

Beth wnaethom ni?

- Mae'r Grŵp Cyfathrebu a Chynnwys newydd, dan arweiniad Prif Swyddog Diogelwch Cymunedol y cyngor, yn darparu ymateb partneriaeth i weithgareddau sy'n cynyddu ymwybyddiaeth, gan herio agweddau a rhagdybiaethau ynghylch cam-drin domestig. Mae hyn wedi cynnwys sawl ymgyrch lwyddiannus megis Diwrnod Rhyngwladol Menywod, Diwrnod y Rhuban Gwyn a gweithdy lles 'It's Your World' (a gyflwynwyd i 300 o ddisgyblion Blwyddyn 8 yn Ysgol Bae Baglan).
- Mae'r Is-grŵp Plant a Phobl Ifanc wedi mapio gwasanaethau ac wedi nodi argymhellion ar gyfer newid, yn ogystal

â chyflwyno digwyddiad cynyddu ymwybyddiaeth ar gyfer ymarferwyr rheng flaen.

- Cynhaliwyd digwyddiad blynyddol Criw Croch yng Nghastell Margam am bythefnos rhwng 3 ac 14 Gorffennaf 2017. Croesawyd 1,647 o ddisgyblion Blwyddyn 6 o 52 ysgol gynradd a chyflwynwyd gwybodaeth am ddiogelwch gan dros 12 o asiantaethau partner ynghyd â grwpiau addysgwyr cyfoedion gyda disgyblion o 6 ysgol uwchradd. Roedd yr asiantaethau partner yn cynnwys Heddlu De Cymru, Cymorth i Fenywod Port Talbot ac Afan, Calan DVS, Hafan Cymru, Chwarae'n Gweithio Castell-nedd Port Talbot, Diogelwch Ffyrdd Castell-nedd Port Talbot, Canolfan Gweithredu ar Ddibyniaeth a Chaethiwed Cymru (WCADA) ymysg eraill a oedd yn cynnwys diogelwch wrth ddefnyddio'r we, perthnasoedd iach, chwarae'n ddiogel, bod yn ddiogel wrth feicio ac ymwybyddiaeth o gyffuriau/alcohol.
- Cyflwynom sawl ymgyrch diogelwch cymunedol a oedd yn cynnwys: Ymgyrch Be A Nice Guy (BANG), Seiberdrosedd a Diogelwch Ar-lein ac Ymgyrch Cam-drin Domestig y Rhuban Gwyn.
- Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn parhau i oruchwylio Strategaeth Perthnasoedd Iach ar gyfer Cymunedau Cryfach Castell-nedd Port Talbot, a ddatblygwyd mewn ymateb i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Gwnaed cynnydd sylweddol wrth gyflwyno'r amcanion a'r gweithredoedd a nodwyd yn y strategaeth ers ei lansio ym mis Tachwedd 2017. Paratowyd Adroddiad Blynyddol i ddangos y cynnydd hyd yn hyn, sy'n cynnwys y canlynol:
 - Mae adolygiad o wasanaethau ar gyfer dioddefwyr risg uchel wedi arwain at benodi 3 Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol amser llawn fel rhan o'r Tîm Diogelwch Cymunedol, wedi'u cefnogi gan Swyddog Cefnogi Busnesau rhan-amser.
 - Mae Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaeth (MARACs) dyddiol yn cael eu treialu, sy'n sicrhau bod dioddefwyr yn cael ymateb cyflymach ac yn lleihau'r amser a dreulir ym mhrif gyfarfodydd pythefnosol MARAC.
 - Mae'r is-grŵp Cyfathrebu a Chynnwys wedi cyflwyno ymgyrchoedd hanfodol drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, a gyflwynwyd mewn partneriaeth â Chymorth i Fenywod a Diogelwch Cymunedol Port Talbot ac Afan ac a gefnogwyd gan ddarparwyr arbenigol lleol eraill.
 - Roedd dros 13,000 o bobl wedi gweld negeseuon Ymgyrch y Rhuban Gwyn ar gyfryngau cymdeithasol.

- Mae BAWSO (sefydliad sy'n darparu gwasanaethau arbenigol i fenywod a dynion ar gyfer y rheiny sy'n dioddef o gam-drin domestig a phob math o drais - gan gynnwys anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM), priodas dan orfod, trais sy'n seiliedig ar anrhydedd a masnachu pobl) wedi ymuno â'r Grŵp Arweinyddiaeth i help i lywio'r gwaith mewn perthynas â dioddefwyr trais rhywiol, anffurfio organau cenhedlu benywod a dioddefwyr Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME).
- Datblygwyd llwybr atgyfeirio newydd i annog mwy o atgyfeiriadau i'r Panel Channel ar gyfer 2018-2019.
- Mae Cynllun Gweithredu Prevent, a ddatblygwyd o ganlyniad i Adolygiad Cyfoedion Prevent ym mis Ionawr 2017, bron wedi'i gwblhau.
- Mae gwybodaeth a'r Proffil Lleol Gwrthderfysgaeth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru (WECTU). Mae'r wybodaeth yn cael ei thrafod yng Nghrŵp Gweithredu Prevent ac ym Mwrdd CONTEST Rhanbarthol Bae'r Gorllewin.

Amcan Cydraddoldeb 2: Gwella mynediad at wybodaeth drwy ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill

1. Gwella cynnwys gwefan y cyngor

Beth wnaethom ni?

- Rydym wedi datblygu 15 gwasanaeth ar-lein dros y pedair blynedd diwethaf, gydag wyth gwasanaeth ychwanegol wedi'u cyflwyno yn ystod 2017-2018. Cafwyd cynnydd yn nifer y gweithrediadau a gyflawnwyd ar-lein (gwasanaethau newydd ar-lein) o 67% (2016-2017) i 73.2% (2017-2018). Mae'r cynnydd hwn mewn gwasanaethau ar-lein wedi caniatáu mwy o gyfleoedd i'r rheiny y mae angen iddynt gael mynediad at wasanaethau ar-lein neu'r rheiny sy'n dewis gwneud hynny.
- Mae'r galw yn y ddau safle Siop Dan yr Unto wedi lleihau; roedd 32,315 o ymwelwyr yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2017 o'u cymharu â'r 37,998 o ymwelwyr a gafwyd yn ystod yr un cyfnod rhwng 2016 a 2017. Mae ffactorau cyfrannol yn cynnwys gostyngiad yn nifer yr ymholiadau sy'n ymwneud ag ailgylchu a threth y cyngor, ynghyd â pharhau i gael staff i hyrwyddo gwasanaethau ar-lein sydd ar gael i gwsmeriaid yn y ddau leoliad Siop Dan yr Unto.
- Mae gwell gwasanaeth i'r bobl hynny sy'n adnewyddu Bathodynau Glas wedi golygu nad oes angen i bobl fynd i'r Ganolfan Ddinesig i gael eu hailasesu mwyach os nad yw eu hamgylchiadau wedi newid.
- Creodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus bartneriaeth newydd i ddatblygu gwaith ar gynhwysiad digidol. Mae'r grŵp yn mynd i'r afael â phedwar rhwystr i gynhwysiad digidol: cysylltedd, fforddadwyedd, sgiliau a hyder. Mae'r prif ddarnau gwaith a gwblhawyd yn cynnwys archwilio pa mor dda y gwasanaethir yr ardal gan fand eang, ynghyd â chynnal arolwg o sefydliadau trydydd sector i nodi pa mor dda yw sefyllfa'r sector er mwyn gweithredu mewn amgylchedd digidol.

2. Cynyddu hygyrchedd gwybodaeth/dogfennaeth

Beth wnaethom ni?

- Mae'r Cyfeiriadur Gwasanaethau Cymunedol yn rhestru'r gwasanaethau cefnogaeth a gofal amrywiol sydd ar gael ar draws y fwrdeistref sirol, yn ogystal ag ap penodol ar gyfer ffonau symudol sy'n caniatáu i weithwyr cymdeithasol gael mynediad at wybodaeth ar-lein wrth ymweld â chleientiaid.
- Mae cynnydd wedi bod yn nifer yr ymweliadau â gwefan y Cyfeiriadur Gwasanaethau Cymunedol: 47,473 o ymweliadau o'i gymharu â 42,810 yn 2016-2017. Mae nifer y gwasanaethau/sefydliadau a restrir ar y Cyfeiriadur Gwasanaethau Cymunedol hefyd wedi cynyddu i 1,054 o'i gymharu â 916 yn 2016-2017.
- Rydym wedi symud y Cyfeiriadur Gwasanaethau Cymunedol i System DEWIS Cymru Gyfan a bydd y gwaith yn cael ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2018.
- Derbyniodd bron 2,600 o oedolion gyngor neu gymorth gan ein Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, cynnydd o 11% ers y flwyddyn flaenorol.
- Rydym wedi cydnabod y newidiadau o ran sut mae defnyddwyr llyfrgelloedd yn cael mynediad at rai o'n gwasanaethau digidol a'r defnydd o wahanol lwyfannau gyda mwy a mwy o ymwelwyr yn defnyddio'r Wi-Fi am ddim yn hytrach na defnyddio'r cyfrifiaduron sefydlog yn ein llyfrgelloedd. Mae hyn yn amlygu'r ffordd y mae cwsmeriaid yn cael mynediad at wybodaeth ar-lein nawr a bydd yn helpu i lywio darpariaeth y gwasanaeth yn y dyfodol.
- Mae cynnydd wedi bod yn nifer y bobl sy'n mynd i lyfrgelloedd ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau amrywiol, gan gynnwys sesiynau cymorth TG, sesiynau caneuon a rhigymanau Dechrau Da, Gwau wrth Glebran, sesiynau tylino Cymraeg i Blant, Grŵp Darllen Cymraeg, Cefnogaeth Cyflogaeth Gweithffyrdd+ ymysg eraill; mae gweithgareddau amrywiol ar gael yn y llyfrgell erbyn hyn ac nid ydynt yn gyfyngedig i gyfrifiaduron a benthyca llyfrau.

Amcan Cydraddoldeb 3 - Gwella mynediad at wasanaethau drwy ddiwallu anghenion aelodau grwpiau gwarchoddedig lle y bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill

Gwella mynediad at ddarpariaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol

Beth wnaethom ni?

- Er ein bod wedi cefnogi dros 2,900 o oedolion, yn 2017-2018 gwelwyd gostyngiad ar y cyfan yn nifer y bobl dros 65 oed sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned. Drwy nodi angen yn well ac yn gynharach, mae mwy o bobl yn cael eu helpu a'u cefnogi gan sefydliadau trydydd sector a sefydliadau cymunedol eraill heb yr angen am ofal a reolir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Er mwyn deall yn well a yw'r gwasanaethau rydym yn eu darparu'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl, cynhaliom arolwg dinasyddion ym mis Chwefror 2018 gyda phlant dros 7 oed, oedolion, rhieni a gofalwyr. Er bod yr ymatebion a gafwyd yn isel ar draws pob grŵp (yn enwedig gan rieni, sef 11%), roedd yr ymatebion a gafwyd o ran ein gwasanaethau'n gadarnhaol er ein bod yn cydnabod bod lle i wella.
- Cytunodd 85% o ymatebwyr arolwg a gynhaliwyd gan y Tîm Adnoddau Cymunedol fod y gwasanaethau ailalluogi wedi gwella eu hannibyniaeth, eu hyder a'u hansawdd bywyd. Mae ymatebion yr arolwg hefyd wedi amlygu gwelliannau ar gyfer y gwasanaeth yr aethpwyd i'r afael â hwy eisoes.
- Rydym wedi cynyddu nifer y Cydlynwyr Ardaloedd Lleol o dri i bump ac maent wedi bod yn gweithio gyda 316 o bobl yn 2017-2018 i'w helpu i deimlo'n llai unig ac yn fwy o ran o'u cymuned.
- Mae nifer y bobl sy'n derbyn taliadau uniongyrchol wedi cynyddu i 415 yn ystod 2017-2018, sef cynnydd o 354 o'r flwyddyn flaenorol, gyda'r Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol yn gweithio i gefnogi'r rheiny sy'n eu derbyn i fod yn hyderus wrth fynd ati i ddefnyddio eu taliadau uniongyrchol.
- Atgyfeiriwyd 79 o bobl ifanc at Wasanaeth Cyfryngu Teuluol Llamau, sy'n cefnogi pobl ifanc sydd wedi bod yn ddigartref neu y maent yn debygol o fod yn ddigartref am eu bod yn profi trais, camdriniaeth neu ymddygiad bygythiol yn y cartref. Roedd 68 o'r bobl ifanc hynny a atgyfeiriwyd rhwng 14 ac 17 oed. Yn dilyn cefnogaeth, roedd 51 ohonynt yn gallu aros gartref/dychwelyd adref neu aros gydag aelod o'r teulu ac roedd 15 arall yn gallu aros gyda'u ffrindiau.

- Yn ystod 2017-2018, helpodd y Tîm Cefnogi Gweithredu Dros Deuluoedd i gefnogi 381 o deuluoedd (cyfanswm o 937 o blant ac aelodau teulu), gyda 308 ohonynt yn newydd i'r gwasanaeth o'r flwyddyn flaenorol.
- Rydym wedi nodi blaenoriaethau ar gyfer 2018-2019 sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i wella annibyniaeth a lles pobl yn ogystal â ffyrdd o archwilio sut i gyflwyno gofal cymdeithasol yn y dyfodol sy'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar ac atal. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys adolygu ein proses asesu gofalwyr a'n polisi a'n darpariaeth ar gyfer seibiant byr yn ogystal â chwblhau'r broses o gasglu a defnyddio canlyniadau personol ar draws y Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc a'u cyflwyno ar draws y Gwasanaethau i Oedolion.
- Mae model sy'n seiliedig ar ganlyniadau bellach wedi'i wreiddio ar draws yr holl dimau gwaith cymdeithasol. Mae'r model gofal hwn yn galluogi ymarferwyr i weithio gyda phlant a theuluoedd i drafod eu nodau lles personol a chydgyhyrchu atebion fel bod plant yn parhau i fod yn ddiogel yn eu cartref teuluol ac yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. I gefnogi hyn, parheir i wella systemau TG i gofnodi data sy'n ymwneud â 'chanlyniadau personol', ac adrodd amdano.
- Ymgwymerwyd â nifer o fentrau i annog a chefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan ac ymgysylltu wrth wneud penderfyniadau; i gynorthwyo wrth benderfynu ar yr hyn sy'n bwysig iddynt ar lefel ficro, yn ogystal â chynorthwyo'r gwasanaeth i benderfynu ar ei gyfeiriad strategol. Mae enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:
 - Sefydlwyd Cyngor Ieuenctid Plant sy'n Derbynn Gofal, 'Mae'ch Llais yn Cyfrif' (sy'n fwy adnabyddus fel YoVo), i roi llais cryfach i blant a phobl ifanc mewn materion sy'n effeithio arnynt
 - Mae plant a phobl ifanc wedi bod yn allweddol wrth ailddylunio deunydd cefnogi, megis llyfrynnau i blant sy'n derbyn gofal a thafleuni amddiffyn plant
 - Cynhaliwyd gweithdai gyda phlant a phobl ifanc a oedd yn hyrwyddo'u hawliau
- Datblygwyd Grŵp Anhwylder y Sbectrwm Awtistig ac mae'n cynnwys gweithwyr proffesiynol a rhieni/gofalwyr er mwyn creu cynllun gwaith i wella bywydau pobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

Amcan Cydraddoldeb 4 - Monitro gwybodaeth a data'n effeithiol er mwyn nodi anfanteision a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig

Datblygu systemau monitro cadarn o fewn gwasanaethau

Beth wnaethom ni?

- Rydym wedi gweld gwelliannau i'r ffordd rydym yn casglu data, yn bennaf o ganlyniad i gynnydd mewn ymarferion ymgynghori a chynnwys a gynhaliwyd fel rhan o ddatblygu'r ffordd rydym yn cyflwyno polisiau a gwasanaethau, yn enwedig mewn perthynas â chefnogi'r gwasanaethau cymdeithasol .
- Mae casglu ein data cyflogaeth yn parhau i fod yn heriol. Fodd bynnag, am fod y porth gweithwyr bellach yn hygyrch i bob aelod o staff drwy'r fewnrwyd, rhagwelir y bydd problemau blaenorol a brofwyd gyda chasglu data'n cael eu lleihau.
- Rydym wedi adolygu proses Aseiad Effaith Cydraddoldeb ac wedi datblygu ein proses Aseiad Effaith Integredig newydd i fodloni ein cyfrifoldebau deddfwriaethol newydd. Nid yw elfennau cydraddoldeb a Chymraeg yr aseiad wedi lleihau, yn hytrach maent wedi gwella'n sylweddol oherwydd gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; yn bennaf wrth fodloni'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy.
- Cafodd y broses aseiad effaith integredig newydd ei threialu gan nifer o feysydd gwasanaeth yn ystod gwanwyn 2018 gyda sesiynau hyfforddiant wedi'u trefnu ar gyfer swyddogion, uwch-reolwyr ac aelodau etholedig ym mis Mai/Mehefin 2018. Yn anffodus, bu rhaid gohirio'r sesiynau hyfforddiant hyn tan ddiwedd yr haf/dechrau hydref 2018 oherwydd amgylchiadau nad oedd modd i ni eu rheoli.
- Mae'r Gymdeithas Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig a Du (BME) (Fforwm Lleiafrifoedd Ethnig a Du gynt) wedi mynd o nerth i nerth yn ystod 2017-2018 gan gynyddu ei phroffil ymysg cymunedau Castell-nedd Port Talbot yn ogystal â chynnal digwyddiadau a gweithgareddau amrywiol i annog cyfranogiad, cynyddu ymwybyddiaeth o faterion a darparu llais ar gyfer ein cymunedau lleiafrifoedd ethnig a du.
- Cynhaliwyd ymarfer proffilio cymunedol er mwyn deall cyfansoddiad cymunedau lleiafrifoedd ethnig a du Castell-nedd Port Talbot ac unrhyw broblemau a heriau y maent yn eu profi. Cymerodd pobl o gymunedau amrywiol ar draws Castell-nedd Port Talbot ran a nodwyd nifer o broblemau/bryderon, rhai ohonynt yn benodol i gymunedau lleiafrifoedd ethnig a du ac eraill yn rhai mwy cyffredinol; rhwystrau iaith, troseddau casineb, llygredd a thrafnidiaeth.

Amcan Cydraddoldeb 5 - Cyflwyno hyfforddiant i staff yn unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb

Beth wnaethom ni?

- Gwnaethom barhau i gyflwyno'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar draws y cyngor, gyda 3,637 o weithwyr yn derbyn hyfforddiant Grŵp 1 yn ystod 2017-2018.
- Gwnaethom barhau i gyflwyno rhaglen hyfforddi'r hyfforddwr WRAP (Gweithdy i Gynyddu Ymwybyddiaeth o Prevent) a achredwyd gan y Swyddfa Gartref i weithwyr ar draws y cyngor. Derbyniodd 1,763 o aelodau staff (gan gynnwys 85 o sefydliadau partner) hyfforddiant yn ystod 2017-2018.
- Mae Cymorth i Ddiodefwyr yn cymryd rhan weithredol wrth gyflwyno mentrau sy'n ymwneud â throeddau casineb. Er enghraifft, cyd-ddyluniodd a chyd-gyflwynodd y Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol hyfforddiant 'hyfforddi'r hyfforddwr' ar gyfer troeddau casineb i staff y cyngor.
- Cynigiwyd amrywiaeth eang o bynciau cydraddoldeb gan yr adran hyfforddiant gan gynnwys, ymysg eraill, ymwybyddiaeth o ddementia, dyslecsia, masnachu pobl a hyfforddiant trawsrywiol a hunaniaeth rywedd. Cafodd bron 2,000 o aelodau o staff eu hyfforddi ynghyd â bron 400 o bobl o sefydliadau partner a bron 20 o ofalwyr maeth (Sesiwn Gweithio gyda Rheini ag Anabledd Dysgu).
- Roedd dros 150 o staff y cyngor a staff amlasiantaeth eraill yn bresennol mewn gweithdai ymwybyddiaeth o eithafiaeth asgell dde yn ystod mis Mawrth 2018.

Amcan Cydraddoldeb 6 - Gwella mynediad i'r amgylchedd drwy ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill

Beth wnaethom ni?

- Gyda'r lefelau o waith a gynhaliwyd dros y blynyddoedd diwethaf i wella mynediad corfforol i'n canolfannau dinesig ac adeiladau eraill y cyngor, rydym wedi canolbwyntio ein gwaith cynnal a chadw ar gyfer cyfnodau penodol gan gynnal gwaith yn ôl yr angen yn unig.
- Mae adolygiad o'r holl arwyddion yn ein swyddfeydd dinesig ac adeiladau eraill y cyngor wedi'i ohirio wrth i ni aros am benderfyniad terfynol Comisiynydd y Gymraeg ynghylch y cyngor. Yn dilyn derbyn y penderfyniad terfynol ym mis Ebrill 2018, rhoddir ystyriaeth i adolygu arwyddion yn sgîl y gofyniad am y Gymraeg yn ogystal â'r gofynion yn Neddf Cydraddoldeb 2010.
- Mae'r prosiect "Datblygiad Twristiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot" a ariennir gan y Cynllun Datblygu Gwledig yn cael ei gyflwyno o hyd, gyda gweithgareddau'n canolbwyntio ar nodi anghenion busnesau twristiaeth; datblygu gwybodaeth y diwydiant twristiaeth am yr ardal drwy gyfres o ddigwyddiadau 'Ymdeimlad o Le' a chynhyrchu fideos a ffotograffau o safon i alluogi gweithredwyr twristiaeth yn ardaloedd y cymoedd i hyrwyddo'r ardal yn fwy effeithiol. Mae'r prosiect hefyd yn cynnal ymchwil i ymwelwyr i sicrhau bod gan y sector twristiaeth fwy o wybodaeth am anghenion, dymuniadau a nodweddion ymwelwyr.
- Agorodd yr Hwb Trafnidiaeth ym Mhort Talbot ym mis Hydref 2017 ac mae ganddo dacsis, bysus, cyfleusterau beicio a chynteddfa newydd i gerddwyr, a'r cyfan gyferbyn â gorsaf drenau'r dref, gan ddarparu gwell mynediad i gludiant cyhoeddus ym Mhort Talbot. Roedd cydweithwyr grŵp anabledd lleol, Grŵp Gweithredu'r Rhwydwaith Anabledd, yn ganolog i ddyluniad yr ardal, gan gynnwys y materion hygyrchedd yng ngorsaf drenau Parcfordd Port Talbot.
- Rydym wedi gosod sgriniau gwybodaeth ac amserlen electronig hygyrch yng ngorsafoedd bysus Castell-nedd a Phort Talbot ac yn yr Hwb Trafnidiaeth ym Mharcfordd Port Talbot. Mae'r sgriniau hyn, sy'n gydnaws â dyfeisiau RNIB (Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall), yn arddangos amseroedd ymadael bysus ac maent hefyd yn gallu helpu'r cyhoedd i gynllunio teithiau.

Amcan Cydraddoldeb 7: Lleihau bylchau ym mherfformiad addysgol disgyblion o ganlyniad i'w nodweddion gwarchoddedig

1. Cynyddu lefelau presenoldeb disgyblion â'r nodweddion gwarchoddedig

Beth wnaethom ni?

- Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gostwng yn ystod blwyddyn academaidd 2017-2018 o'i chymharu â 2016-2017; cynradd - 94.69% i 94.14% ac uwchradd 93.64% i 93.48%.
- Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion a rhieni i nodi achos absenoldeb disgyblion unigol gyda'r nod o ymyrryd yn gynnar pryd a ble bynnag y mae angen gwneud hynny. Cafodd pob achos o salwch unigol ei fonitro a'i herio lle ymddengys fod patrwm o absenoldeb. Anogir ysgolion i roi codau cywir ar gyfer absenoldebau er mwyn gallu olrhain data'n gywir. Trefnir cyfarfodydd rheolaidd rhwng Swyddogion Lles Addysg a staff allweddol yr ysgol i drafod achosion disgyblion unigol a darparu cyngor, cefnogaeth ac i benderfynu ar gamau gweithredu.
- Mae data gwaharddiadau wedi cael ei fonitro'n agos ac, mewn ymateb i'r cynnydd yn nifer y gwaharddiadau tymor penodol a pharhaol, sefydlwyd Tîm Lles ac Ymddygiad sy'n cynnwys staff ag amrywiaeth o brofiad ac arbenigedd, a phenodwyd rheolwr dynodedig hefyd. Yn ogystal â hyn, rydym wedi cynyddu nifer y lleoedd asesu yn y sectorau cynradd ac uwchradd i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad (ACEY).
- Mae'r Tîm Lles ac Ymddygiad hefyd yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol allweddol i ddatblygu pecyn hyfforddiant i ysgolion er mwyn diwallu anghenion disgyblion ag ACEY. Mae'r newid hwn i wasanaethau a darpariaeth wedi bod ar waith yn yr holl ysgolion o fis Medi 2017 gyda'r nod o gynnwys continwwm o gefnogaeth a gwella gallu mewn ysgolion, fel rhan o gynllun tymor hir y cyngor i sicrhau bod anghenion disgyblion ACEY yn cael eu diwallu'n effeithiol.
- Roedd cyfanswm o 10 gwaharddiad parhaol yn ystod blwyddyn academaidd 2017-2018 (1 gwaharddiad ysgol gynradd a 9 gwaharddiad ysgol uwchradd)

2. Lleihau'r bylchau rhwng cyrhaeddiad perfformiad addysgol bechgyn a merched yn y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnodau Allweddol (CA) 2 a 3

Beth wnaethom ni?

- Yn dilyn ymweliadau cefnogi yn hydref 2017, roedd disgwyl i bob ysgol gynradd asesu sgiliau disgyblion a chanolbwyntio ar eu gwella. Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y maes hwn ac mae ysgolion bellach mewn safle da i fodloni gofynion datblygu cwricwlwm er mwyn mynd i'r afael â lefelau sgiliau disgyblion.
- Ym mis Medi 2017 roeddem wedi rhoi ein strategaeth arweinyddiaeth ar waith, gyda'r nod o ddatblygu arweinwyr ysgol hyderus ac uchelgeisiol sy'n gallu rheoli newid yn effeithiol. O ganlyniad, bydd ysgolion yn amgylcheddau addas i hyrwyddo gwelliannau yn safonau a lles disgyblion.
- Ers y cyflwynwyd y trefniadau arolygu newydd ym mis Medi 2017, hyd yn hyn arolygwyd 15 ysgol, ac o'r rheiny:
 - o Derbyniodd 13 radd 'Da' neu'n well ar gyfer Safonau
 - o Derbyniodd 15 radd 'Da' neu'n well ar gyfer Gofal, Cefnogaeth ac Arweiniad
 - o Derbyniodd 15 radd 'Da' neu well ar gyfer Iechyd ac Agweddau at Ddysgu
- Cynyddodd nifer yr ysgolion cynradd sydd wedi eu categorio fel gwyrdd neu felyn yn ystod blwyddyn academaidd 2017-2018 i 79% o 77% y flwyddyn flaenorol. Hwn yw'r ffigwr uchaf ers y cyflwynwyd categorio yn 2014-2015.
- Nod prosiect Cynnydd, sy'n gweithredu dros dde-orllewin Cymru, yw lleihau nifer y bobl ifanc rhwng 11 a 24 sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Yng Nghastell-nedd Port Talbot clustnodir y prosiect ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed sy'n cael eu nodi fel y rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf o golli diddordeb yn addysg ac sy'n wynebu'r perygl mwyaf o fod yn NEET.
- Hyd yn hyn mae Cynnydd wedi gweithio gyda 421 o bobl ifanc. Gadawodd 88.5% y prosiect gyda chanlyniad cadarnhaol a llai o berygl o fod yn NEET. Gadawodd 71% wedi ennill cymhwyster o ganlyniad i'r gefnogaeth.
- Mae 5 gweithiwr ieuenctid etifeddiaeth Cymunedau'n Gyntaf yn cefnogi'r holl ysgolion uwchradd gyda chefnogaeth wedi'i theilwra i bob ysgol. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth un i un, ymweliadau cartref, gwaith y tu allan i'r ysgol a

chyda grwpiau bach ym mlynnyddoedd 9-11 i'w cefnogi yn eu haddysg.

- Unwaith eto, roedd gostyngiad yng nghyrhaeddiad bechgyn ar draws llythrennedd a rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 4 ond mae cynnydd wedi bod mewn cyrhaeddiad rhifedd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3.
- Gwelwyd gwelliant yng nghyrhaeddiad merched mewn rhifedd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 4 ond mae lefelau cyrhaeddiad llythrennedd yn gostwng ar draws pob Cyfnod Allweddol.
- Mae'r newidiadau helaeth eu cwmpas (a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru) i gyfrifiadau dangosyddion allweddol Cyfnod Allweddol 4 yn 2017 wedi effeithio ar ganlyniadau Castell-nedd Port Talbot, fel y mae yn yr holl awdurdodau lleol a bellach mae Castell-nedd Port yn is na chyfartaledd Cymru yn yr holl fesurau. Nodwyd bod y gostyngiad mwyaf mewn perfformiad ym mhwnc mathemateg ac effeithiwyd ar blant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn derbyn prydau ysgol ddim

Amcan Cydraddoldeb 8 - Sicrhau bod ein prosesau cyflogi a recriwtio'n hybu tegwch a chydraddoldeb i bawb.

Beth wnaethom ni?

- Mae'r cyngor yn gyflogwr 'hyderus wrth ymdrin ag anabledd'. Mae'r cynllun hyderus wrth ymdrin ag anabledd yn annog gweithwyr i fod yn fwy hyderus fel eu bod yn cyflogi ac yn cadw pobl anabl, yn gwella dealltwriaeth o anabledd a manteision cyflogi neu gadw pobl anabl er mwyn gwneud cyfraniad pwysig at haneru'r bwlch o ran cyflogi'r anabl. Drwy barhau â'n taith hyderus wrth ymdrin ag anabledd, mae'r cyngor yn sicrhau bod pobl anabl a'r rhai â chyflyrau iechyd tymor hir yn cael cyfleoedd i gyflawni eu potensial a gwireddu eu dyheadau.
- Gan fod 70% o'r gweithlu'n fenywod, ystyriwyd ei fod yn addas i greu arweiniad i helpu rheolwyr i ddeall y materion sy'n gallu effeithio ar fenywod sy'n profi diwedd y mislif yn y gweithle'n well, yn ogystal â darparu ffeithlenni i staff.
- Rydym yn cydnabod sefyllfa fregus grwpiau penodol o fewn ein gweithlu, ac o ganlyniad rydym yn datblygu polisiau i ddarparu cefnogaeth. Rydym wedi llunio polisi ailbennu rhywedd, a gymeradwywyd ym mis Medi 2017, sy'n sicrhau bod gweithiwr sy'n bwriadu, wedi dechrau neu wedi gorffen proses i newid ei ryw yn cael ei drin ag urddas a pharch.
- Yn 2017/2018, cyfran y gweithwyr lleiafrifoedd ethnig a du oedd 1%. Cynrychiola hyn gynnydd o 3 gweithiwr BME ers 2016/2017. Fodd bynnag, mae canran y gweithwyr BME a gynrychiolir yn y gweithlu yn gyson ar 1%.
- Ymgeisiodd 5,847 o bobl am 622 o swyddi (gan gynnwys hysbysebion ysgol) yn 2017-2018, a phenodwyd 568 o bobl (ac eithrio penodiadau ysgol am fod y rhain yn cael eu trefnu gan ysgolion) yn 2017-18. Roedd hyn o'i gymharu â 2016-2017 lle ymgeisiodd 4,105 o bobl am 498 o swyddi a lle penodwyd 404 o bobl.
- Yn ystod 2017-2018, roedd 50% o'r ymgeiswyr yn ymgeiswyr mewnol o weithlu presennol y cyngor, o'i gymharu â 27% o ymgeiswyr yn 2016-17. Oherwydd y cyfyngiadau ariannol parhaus, mae moratoriwm ar recriwtio allanol yn dal i fod, ac eithrio swyddi arbenigol y mae'n anodd eu llenwi e.e. gweithwyr cymdeithasol cymwys, glanhawyr, swyddi gwasanaethau uniongyrchol (gwasanaethau cymdeithasol), etc.

Amcan Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau - datblygu data cyflog/cyflogaeth ymhellach er mwyn deall yn well y rhesymau dros y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a nodi unrhyw gamau y gellir eu cymryd i leihau'r bwlch cyflog.

Beth wnaethom ni?

- Rydym wedi bod yn gweithio i nodi'r rhesymau dros y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y cyngor yn ogystal â'r ffyrdd o fynd i'r afael â hynny. Fel cam cyntaf, cyhoeddodd ein [hadroddiad bwlch cyflog rhwng y rhywiau](#) ar gyfer 2017-2018 ym mis Medi 2018, a oedd yn nodi'r gwahaniaeth rhwng cyflog cyfartalog dynion a menywod sy'n gweithio yn y cyngor.
- Er bod bwlch cyflog rhwng y rhywiau'r cyngor yn is na bwlch cyflog canolrifol y DU (y gwahaniaeth rhwng y canolbwynt yn amrediadau cyfraddau bob awr dynion a menywod), rydym yn ymrwymedig i gau'r bwlch. Rydym yn parhau i adolygu a monitro'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac un o gamau gweithredu 'Cynllun Gweithredu 2018-2022' yw datblygu strategaeth i fynd i'r afael â hyn.

Adran 4 - Bodloni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswyddau Penodol

Wrth fodloni'r amcanion cydraddoldeb, rydym yn parhau i fod yn ymwybodol o'r heriau ariannol parhaus, llai o allu, mwy o ddisgwyliadau a demograffig newidiol Castell-nedd Port Talbot. Rydym yn ceisio ymgymryd â'n holl waith gan ddefnyddio gwybodaeth am Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'n hymroddiad iddi.

Gan ganolbwyntio ein hymdrechion ar wella hygyrchedd ein gwefan, gweithio i fynd i'r afael â throseddau casineb a thrais domestig a gwella ein proses Asesiad Effaith Cydraddoldeb, rydym wedi gwella meysydd sy'n cael effaith fawr ar fywydau pobl.

Rydym wedi bod yn awyddus i sicrhau ymagwedd fwy cyfannol at ein gwaith sydd wedi cynnwys cydlynu ein hamcanion cydraddoldeb a'n blaenoriaethau gwella corfforaethol fel bod unrhyw gynnydd a wneir yn fuddiol i'r ddau. Gellir dod o hyd i'r cynnydd a wnaed o ran ein blaenoriaethau gwella a'n hamcanion lles yn [Rhan 1: Adroddiad Blynyddol Cynllun Gwella Corfforaethol 2017-2018](#) a [Rhan 2: Adroddiad Blynyddol Cynllun Gwella Corfforaethol 2017-2018](#)

Yn dilyn trafodaethau manwl â Chomisiynydd y Gymraeg a'i chynrychiolwyr, canfuwyd ffordd ymlaen sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr mewn perthynas â'r her a gyflwynwyd o ran gweithredu'r 54 o safonau a derbyniwyd penderfyniad terfynol ym mis Ebrill 2018. Daeth hyn â dwy flynedd o drafodaethau i ben sydd wedi arwain at amrywiaethau i'r safonau yn ogystal â dealltwriaeth well o'r hyn sy'n ofynnol.

Cafodd ein [Hadroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2017-2018](#), yr adroddiad blwyddyn lawn cyntaf am sut rydym wedi cydymffurfio â'r safonau hynny, ei gyhoeddi ar 30 Mehefin 2018 yn unol â gofynion statudol.

Ym mis Ionawr 2018, sefydlwyd grŵp tasg a gorffen sy'n cynnwys aelodau Pwyllgor Craffu'r Cabinet i ddatblygu [Strategaeth Hybu'r Gymraeg ar gyfer Castell-nedd Port Talbot](#). Gyda chefnogaeth a chynghor Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot, lluniwyd drafft o'r strategaeth a'r cynllun gweithredu ac roedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mai a Mehefin 2018. Yn dilyn yr ymgynghoriad, adolygwyd y strategaeth a'r cynllun gweithredu ac fe'u mabwysiadwyd gan y cyngor ar 26 Medi 2018.

Nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol

Rydym wedi parhau i ymgysylltu â'r cyhoedd, partneriaid, cymunedau lleol a grwpiau â diddordeb i gasglu gwybodaeth, a gynorthwyodd i lywio ein strategaethau, ein polisïau a'n cynlluniau amrywiol yn ogystal â dylanwadu ar sut rydym yn cyflwyno ein gwasanaethau. Yn anffodus, diddymwyd Grŵp Gweithredu'r Rhwydwaith Anabledd oherwydd salwch un o'r ddau aelod allweddol a arweiniodd at yr holl gyfrifoldeb yn cael ei roi ar yr aelod arall, ac nid oedd hyn yn gynaliadwy.

Mae nodi a chasglu gwybodaeth yn parhau i fod yn elfen allweddol, yn enwedig mewn perthynas â'r broses asesu effaith a thrwy gasglu'r wybodaeth berthnasol fel rhan o'r ddarpariaeth gwasanaeth rydym mewn sefyllfa well i ddeall cymhlethdod ein bwrdeistref sirol ac i ddefnyddio'r wybodaeth hon wrth ddatblygu polisi a gwasanaethau.

Rydym yn parhau i weld gwelliannau i sut caiff data cyflogaeth ei gasglu a'i dadansoddi o ganlyniad i gyflwyno'r Porth Gweithwyr lle mae staff yn gallu diweddarau eu cofnodion unigol eu hunain. O ganlyniad, rydym yn gallu deall ein gweithlu'n well ac, felly, rydym yn gallu datblygu polisïau mewnol sy'n cael eu llywio gan wybodaeth fwy cadarn.

Mae'r fenter proffilio cymunedau gan Gymdeithas Cymunedau BME Castell-nedd Port Talbot wedi darparu data penodol a chadarn am ein cymunedau BME, eu pryderon a'u profiadau o fyw yng Nghastell-nedd Port Talbot. Gan ddefnyddio'r data hwn, byddwn yn gallu datblygu polisïau a gwasanaethau sy'n fwy gwybodus ond drwy weithio gyda Chymdeithas Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig a Du a sefydliadau a chymunedau lleol eraill, lle y bo'n briodol, bydd y data hwn yn llywio mentrau lleol ac yn darparu canlyniadau cadarnhaol.

Dyma rai enghreifftiau o'n gwaith arall yn ystod 2017-2018 i fodloni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

- Datblygwyd prosiect cymunedol/amgylcheddol yn Nhir Morfa i ddarparu cyfleoedd gwych i ddysgwyr fod yn rhan o'u cymunedau ac i wneud gwahaniaeth ynddynt, yn ogystal â chefnogi grwpiau difreintiedig yn y gymuned leol. Mae lleiniau wedi'u rhannu â grwpiau lleol eraill e.e. y YMCA, Dysgu Oedolion yn y Gymuned (cynnig

cyrsgiau garddio i breswylwyr lleol).

- Mae Bspoked (prosiect wedi'i ddatblygu o ganolfan ddydd arferol y Gwasanaethau Cymdeithasol i bobl ag anableddau dysgu) wedi darparu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn sesiynau bwyta'n iach, gan goginio a bwyta'r cynnyrch y maent wedi ei dyfu a hefyd wedi rhoi'r cyfle iddynt fynd â'r cynnyrch hwnnw adref gyda nhw i'w teuluoedd gael ei goginio. Enillodd y prosiect hwn 'Wobr Effaith ar y Gymuned' yng Nghymru ym mis Tachwedd 2017 yng Ngwobrau Dathlu Llwyddiant Cenedlaethol Ymddiriedolaeth y Tywysog ac mae wedi'i enwebu i gynrychioli Cymru yng ngwobrau'r DU.
- Mae'r gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf wedi newid yn ddiweddar gyda mwy o ffocws ar gefnogaeth a dargedir ar gyfer pobl ifanc a grwpiau diamddiffyn. O fewn y Gwasanaeth Ieuenctid, mae gweithwyr ieuenctid Teuluoedd yn Gyntaf yn cefnogi 4 grwp diamddiffyn - Grŵp Cefnogi Profedigaeth Brightside, Grŵp Anawsterau Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu, Grŵp Canolfan Gweithredu ar Ddibyniaeth a Chaethiwed Cymru (WCADA) ac maent wedi datblygu Grŵp Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol yn ddiweddar.
- Mae Cyngor Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot wedi'i ethol yn llawn bellach, gyda phobl ifanc yn cael eu hethol o'u hysgolion a hefyd o grwpiau â diddordeb arbennig megis plant sy'n derbyn gofal, clwb iaith a lleferydd, gofalwyr ifanc a cholegau.
- Mae llwyddiannau hyd yn hyn ar lefel leol a chenedlaethol yn cynnwys un person ifanc ar Fwrdd Ymgynghorol y Comisiynydd Plant a pherson ifanc a etholwyd fel aelod o Senedd Ieuenctid ar gyfer Castell-nedd Port Talbot a enillodd Wobr yr Uchel Siryf yn 2017.
- Roedd ymyriadau a dargedwyd gyda grwpiau penodol o bobl ifanc ddiamddiffyn rhwng 9 a 24 oed i'w galluogi i oresgyn rhwystrau i'w lles a'u hiechyd cymdeithasol, emosiynol a chorfforol. Mae hyn yn cynnwys clwb ieuenctid i bobl ifanc ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu, clwb ieuenctid ar gyfer gofalwyr ifanc, sesiynau hamdden wythnosol i bobl ifanc mewn perygl o gamddefnyddio sylweddau a grŵp ar gyfer pobl ifanc y mae profedigaeth wedi effeithio arnynt.
- Cynhaliwyd digwyddiad hyfforddi a rhannu gwybodaeth yn seiliedig ar hawliau ar gyfer staff ym mis Tachwedd 2017 a oedd yn archwilio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a sut gallai hyn gael ei ddefnyddio wrth ddatblygu polisïau a gwasanaethau.

- Darparom amrywiaeth eang o lyfrau cyffredin a phrint mawr yn ogystal â llyfrau llafar i bobl nad ydynt yn gallu ymweld â llyfrgell neu sy'n cael anhawster cyrraedd y llyfrgell; dosbarthwyd llyfrau i dai unigolion, cyfadeiladau tai lloches, cartrefi nyrsio a chanolfannau dydd. Yn ogystal, mae'r llyfrgell deithiol yn ymweld â chymunedau nad oes ganddynt llyfrgell leol. Mae ein cerbyd yn darparu mynediad i'r anabl ac mae'n teithio ar draws y fwrdeistref sirol.
- Cynhaliwyd Gŵyl Bwyd a Diod Castell-nedd ym mis Hydref 2017, gan ddenu mwy na 56,000 o ymwelwyr i ganol tref Castell-nedd dros dri diau'r ŵyl a helpu i hyrwyddo amrywiaeth eang o gynnyrch diwylliannol amrywiol.
- Cwblhaom brosiectau a oedd yn ceisio creu profiad gwell i ymwelwyr gan gynnwys gosod Wi-Fi am ddim a sgriniau mawr, bwydlen newydd ar gyfer caffï a pharc chwarae newydd cynhwysol ym Mharc Gwledig y Gnoll. Cafwyd ychydig dan 150,000 o ymwelwyr yn y ganolfan ymwelwyr (mae'r mesurwyr ymwelwyr â'r ganolfan ymwelwyr yn unig felly ni fyddai'r data hwn yn adlewyrchiad gwir o nifer yr ymwelwyr â'r parc ar y cyfan).
- Er mwyn hyrwyddo cynhwysiad digidol rydym wedi gwneud ymrwymiad i benderfynu lle mae'r ardaloedd heb wasanaeth (a elwir yn fannau gwyn) yng Nghastell-nedd Port Talbot a sut gallwn weithio gyda Llywodraeth Cymru a chyflenwyr i fynd i'r afael â'r gostyngiad.
- Parhaom i weithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod pobl y mae angen cefnogaeth arnynt i wneud a chynnal eu cais am Gredyd Cynhwysol yn gallu cael mynediad at y gefnogaeth honno.
- Ar 31 Mawrth 2017, roedd 1,210 o hawlwyr yn derbyn Credyd Cynhwysol yng Nghastell-nedd Port Talbot. Roedd hyn wedi cynyddu i 1,250 erbyn 30 Medi 2017. Amcangyfrifir bod costau tai 425 o hawlwyr yn cael eu talu yn eu Credyd Cynhwysol. Rhwng 1 Ebrill 2017 a 30 Medi 2017, roedd 14 o hawlwyr wedi gofyn am gefnogaeth arbenigol i reoli arian ac wedi derbyn hynny ac roedd 31 wedi gwneud cais am gefnogaeth ddigidol ac wedi'i derbyn.
- Darparwyd rhaglen am ddim o gyfleoedd hyfforddi i annog a chefnogi datblygiad pob plentyn, gan helpu i'w paratoi i gymryd rhan mewn chwarae a dysgu yn yr ysgol. Cofnodwyd bod cyfanswm o 373 yn bresennol ar draws y rhaglen. Roedd y cyrsiau'n cynnwys: Chwarae Cynhwysol, Ysgolion Coedwig, Ymgysylltu Effeithiol â Rhieni, Deall Anghenion Addysgol Arbennig, Datblygiad Plant a Rôl yr Oedolyn a Chwarae yn yr Awyr Agored.
- Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi cynnal ei grwpiau ieuenctid mynediad agored mewn 11 o glybiau ieuenctid

lleol ac mae wedi parhau i gael grantiau er mwyn darparu cymorth ar gyfer grwpiau diamddiffyn megis pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a phobl ifanc ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu.

- Rydym wedi parhau â'n Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, gan gyflwyno sawl ysgol newydd yn ogystal â darpariaethau newydd i ysgolion presennol:
 - Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur - agorodd campws Ystalyfera yng ngogledd y fwrdeistref sirol sy'n darparu addysg Gymraeg i ddisgyblion 3-18 oed ym mis Mehefin 2018. Agorodd campws Bro Dur yn ne'r fwrdeistref sirol, sy'n darparu addysg Gymraeg i ddisgyblion 11-16 oed i blant blwyddyn 7 ac 8 sy'n byw yn ne'r fwrdeistref sirol ym mis Medi 2018.
 - Ysgol Carreg Hir - ysgol gynradd newydd i ddisodli ysgolion cynradd Brynhyfryd, Ynysmaerdy a Llansawel. Agorodd yr ysgol ym mis Medi 2018.
 - Ysgol Cwm Brombil - agorodd yr ysgol 3-16 oed i ddisodli ysgolion cynradd Dyffryn Uchaf ac Isaf ac Ysgol Gynradd y Groes ym mis Medi 2018.
 - Cymeradwywyd grant i sefydlu dwy ddarpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion oed cynradd y nodwyd bod ganddynt anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY). Mae'r rhain mewn canolfan asesu yn Ysgol Gynradd Coedffranc ac mewn canolfan cefnogi dysgu yn Ysgol Gynradd Crynallt. Roedd y ddwy ddarpariaeth yn barod ar gyfer tymor yr haf 2018.
- Comisiynwyd gwasanaethau eiriolaeth gennym ar gyfer unigolion er mwyn cefnogi a chynrychioli barn pobl hŷn sy'n byw yn y fwrdeistref sirol gyda'r bwriad o sbarduno newid. Mae mynediad at wasanaeth eiriolaeth wedi bod ar gael er mwyn rhoi llais i unigolion a sicrhau bod eu barn a'u dymuniadau'n cael eu hystyried yn llawn yn y broses gynllunio unigol a chydag unrhyw benderfyniadau a wneir drostynt gan weithwyr proffesiynol.
- Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn darparu 8,760 o unedau tai er mwyn cyflwyno'r 7,800 o unedau tai y mae eu hangen erbyn 2026. O fewn y ffigur cyffredinol hwn mae angen cyflwyno 1,200 o unedau tai fforddiadwy drwy'r system gynllunio a, hyd yn hyn, mae 75 o unedau tai fforddiadwy wedi'u cyflwyno (sef 6.3% o'r targed a nodwyd).

Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb

Rydym wedi adolygu a diwygio ein proses asesu effaith cydraddoldeb i gynnwys ein dyletswyddau cyfreithiol newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ogystal â chynnal y ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg. Y nod yw datblygu ymagwedd fwy integredig at asesu effaith ein polisiau a'n gwasanaethau ar bobl â nodweddion gwarchoddedig yn ogystal â'r gymuned ehangach, nawr ac yn y dyfodol. Cynhaliwyd cyfres o aseidiadau peilot ar ddechrau gwanwyn 2018 a gwnaed y diwygiadau terfynol er mwyn paratoi ar gyfer ei weithredu ar draws pob maes gwasanaeth.

Wrth gyflwyno'r broses asesu newydd ac wrth gydnabod diffyg profiad staff (yn dilyn canlyniad i golli llawer o staff o ganlyniad i'r cyfyngiadau ariannol rydym wedi'u hwynebu, ac rydym yn parhau i'w hwynebu), rydym wedi datblygu rhaglen hyfforddiant i sicrhau bod ein staff yn deall yn llawn pam a sut i gynnal aseidiadau, pwysigrwydd cynnal ymgynghoriad a chyfranogiad yn ogystal â chydabod yr egwyddor datblygu cynaliadwy ehangach.

Trefnwyd sesiynau hyfforddiant ar gyfer swyddogion, uwch-reolwyr ac aelodau etholedig ym mis Mai/Mehefin 2018. Yn anffodus, bu rhaid gohirio'r sesiynau hyfforddiant hyn tan ddiwedd yr haf/dechrau hydref 2018 oherwydd amgylchiadau nad oedd modd i ni eu rheoli.

Gwybodaeth Benodol am Gyflogaeth

Ceir adroddiad ar wahân am Wybodaeth Cyflogaeth ar gyfer y cyfnod 2017-2018.

Mae'r data wedi cael ei ddadansoddi yn ôl nodweddion gwarchoddedig rhyw, hil, anabledd ac oedran ac yn ôl meini prawf penodol. Er bod y data mewn perthynas â'r nodweddion hyn o safon, mae bylchau yn yr wybodaeth y gallwn ei chasglu ar hyn o bryd o ran y nodweddion gwarchoddedig canlynol: ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd a chred a thueddfryd rhywiol.

Mae'r data naill ai ar gyfer y cyfnod o 12 mis, 1 Ebrill 2017 tan 31 Mawrth 2018, neu, lle bo'n briodol, yn giplun o'r gweithlu ar 31 Mawrth 2018.

Adran 5 - Dweud eich dweud

Hoffem glywed eich barn am yr adroddiad hwn a'n hamcanion cydraddoldeb er mwyn ein helpu i wneud penderfyniadau ar faterion pwysig. Os hoffech rannu eich barn, e-bostiwch y Tîm Polisi Corfforaethol ar policy@npt.gov.uk neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Corfforaethol, CBS Castell-nedd Port Talbot, Canolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ.



Hoffwch ni neu cyflwynwch eich sylwadau ar ein tudalen Facebook: <https://www.facebook.com/CyngorCNPT>



Dilynwch yr adroddiad hwn ac ychwanegwch eich trydar ar ein tudalen Twitter: @CyngorCnPT

Adran 6 - Mesurau Perfformiad

Allwedd Perfformiad	
↑	Perfformiad wedi gwella
↔	Perfformiad wedi'i gynnal
↓	Perfformiad wedi dirywio
-	Dim data cymaradwy (data ddim yn addas ar gyfer cymharu/dim data ar gael ar gyfer cymharu)

Amcan Cydraddoldeb 1: Mynd i'r afael ag aflonyddu, gwahaniaethu a bygythiadau eraill i ddiogelwch personol a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig

Rhif	Cyf.	Mesur	2016-2017	2017-2018	Cyfeiriad Gwelliant
1	AC 1.1	Nifer y troseddau casineb yr adroddwyd amdanynt -	110	122	-
2	AC 1.2	Nifer y troseddau casineb yr adroddwyd amdanynt - anabledd	16	14	-
3	AC 1.3	Nifer y troseddau casineb yr adroddwyd amdanynt - hil	68	68	-
4	AC 1.4	Nifer y troseddau casineb yr adroddwyd amdanynt - crefydd	3	3	-
5	AC 1.5	Nifer y troseddau casineb yr adroddwyd amdanynt - tueddfryd rhywiol	22	37	-
6	AC 1.6	Nifer y troseddau casineb yr adroddwyd amdanynt - trawsrywiol	1	4	-

Amcan Cydraddoldeb 1: Mynd i'r afael ag aflonyddu, gwahaniaethu a bygythiadau eraill i ddiogelwch personol a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig

Rhif	Cyf.	Mesur	2016-2017	2017-2018	Cyfeiriad Gwelliant
		Nid yw'n bosib diffinio'n glir gyfeiriad y gwelliant gan na ellir nodi'n gywir y rheswm am y cynnydd yn nifer yr adroddiadau. Gallai'r rhesymau am y cynnydd mewn niferoedd fod oherwydd diffyg adrodd yn y gorffennol, mwy o hyder yn y broses adrodd, neu gynnydd go iawn yn nifer yr achosion.			
7	AC 1.7	Nifer yr atgyfeiriadau i'r Panel Channel	6	0	-
8	AC 1.8	Nifer yr atgyfeiriadau newydd i Ymgynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig y Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth/asiantaethau trais domestig arbenigol	1006	1997	-
		Mae newidiadau yn y ffordd y mae data wedi'i gasglu gan sefydliadau partner wedi cyfrannu at y gwahaniaeth sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau newydd. O ganlyniad, nid yw'n bosib cymharu'r data.			
9	AC 1.9	Nifer yr ail-atgyfeiriadau Ymgynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig y Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth/asiantaethau trais domestig arbenigol	1053	279	-
		Adroddwyd nifer anghywir o 'ail-atgyfeiriadau' ar gyfer 2016-2017 yn flaenorol ac felly nid yw'n bosib cael data wedi'i ddiwygio ar gyfer y cyfnod hwn.			

Amcan Cydraddoldeb 2: Gwella mynediad at wybodaeth drwy ddiwallu anghenion aelodau grwpiau gwarchoddedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill

Rhif	Cyf.	Mesur	2016-2017	2017-2018	Cyfeiriad Gwelliant
10	AC 2.1	Nifer y gwe-dudalennau a ddiweddarwyd	NEWYDD	*	-
11	AC 2.2	% y gwe-dudalennau sydd ar gael yn Gymraeg	99.9%	100%	↑
12	AC 2.3	% y cynnydd yn nifer y bobl sy'n mynd i'r wefan am y tro cyntaf	NEWYDD	*	-
13	AC 2.4 (DBC/006)	Gwella'r radd broffesiynol ar gyfer ein gwe-dudalen o 1 seren (y radd uchaf yw 4 seren)	3	2**	↓
<p>* Yn dilyn ystyriaeth ychwanegol, ystyrir nad yw'r mesurau hyn yn addas. Bydd mesurau mwy addas a pherthnasol yn cael eu hystyried.</p> <p>** Defnyddiwyd meini prawf gwahanol wrth asesu graddfa seren SOCITM ar gyfer 2017-2018. Ni fydd SOCITM yn cynnal yr arolwg hwn y flwyddyn nesaf. Er rydym wedi colli seren, rydym yn debyg i ffigur cyfartalog Awdurdodau Unedol Cymru (2.3).</p>					
14	AC 2.5 (DBC/007)	% y cwsmeriaid sy'n fodlon iawn/fodlon neu'n weddol fodlon ar welliannau a wnaed i'r gwasanaeth sydd ar gael ar-lein - golwg a naws cyffredinol	97% (196 o 203)	84% (37 o 44)	↓

Amcan Cydraddoldeb 2: Gwella mynediad at wybodaeth drwy ddiwallu anghenion aelodau grwpiau gwarchoddedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill					
Rhif	Cyf.	Mesur	2016-2017	2017-2018	Cyfeiriad Gwelliant
15	AC 2.6 (DBC/00 8)	Mwy o'n cwsmeriaid yn ei chael hi'n haws defnyddio'r wefan: % y cwsmeriaid sy'n fodlon iawn/fodlon neu'n eithaf bodlon ar hwylustod defnyddio'r wefan	91% (184 o 203)	84% (37 o 44)	↓
16	AC 2.7 (DBC/00 9)	Gall mwy o'n cwsmeriaid gael mynediad at wybodaeth a chanfod y wefan/gwasanaeth y mae ei angen arnynt yn fwy hwylus y tro cyntaf: % sy'n fodlon iawn/fodlon neu'n weddol hapus gyda chanfod gwybodaeth/gwasanaethau	84% (169 o 199)	84% (37 o 44)	↔
Rydym wedi gweld gostyngiad mewn dau o'r mesurau boddhad cwsmeriaid â'r wefan. Bydd y data diweddar a gasglwyd yn cael ei ddadansoddi er mwyn canfod a oes unrhyw resymau penodol dros y gostyngiad ym moddhad cwsmeriaid er mwyn llywio'n gwelliannau parhaus i'n gwefan.					
17	AC 2.8 (DBC/01 0)	Nifer y cwsmeriaid a gynorthwyir i ddefnyddio opsiynau hunanwasanaeth gan staff Siop dan yr Unto'r Gwasanaethau Cwsmeriaid	NEWYDD	94	-
18	AC 2.9 (DBC/00 1)	% y trafodion a gwblhawyd ar-lein (gwasanaethau newydd)	67.7% (59,791 o 88,264)	71.1% (60,623 o 85,245)	↑
Mae data ar gyfer y mesur hwn yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau canlynol: Ceisiadau am gasgliadau swmpus, sbwriel a chyfarpar ailgylchu, adrodd am leoliadau ar gyfer biniau baw cŵn, biniau graean, adrodd am gasgliadau gwastraff a gollwyd. Gellir hefyd drefnu apwyntiadau i reoli pla a gwneud cais am hawlenni faniau ar-lein.					

Amcan Cydraddoldeb 2: Gwella mynediad at wybodaeth drwy ddiwallu anghenion aelodau grwpiau gwarchoddedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill

Rhif	Cyf.	Mesur	2016-2017	2017-2018	Cyfeiriad Gwelliant
19	AC 2.10 (DBC/00 2)	Nifer y gwasanaethau newydd sydd ar gael ar-lein	8	31	↑
<p>Mae data 2017/18 yn cynnwys gwasanaethau ar-lein newydd h.y. cyhoeddus) a gyflwynwyd ers Hydref 2013 drwy ffrydiau gwaith 'Gwell, Symlach, Rhatach' (Amcanion Gwella blaenorol) a Digidol drwy Ddewis. Ar 31 Mawrth 2018 roedd 31 o wasanaethau ar gael ar-lein. Mae 10 gwasanaeth ar-lein ychwanegol yn cael eu datblygu ar hyn o bryd a fydd yn barod i'w gweithredu yn ystod 2018/19. Yn ogystal, mae nifer o ffurflenni ar-lein 'statig' ar gael ac mae nifer o ddolenni ar ein gwefan at wasanaethau ar-lein a ddarperir gan sefydliadau eraill, er enghraifft cofrestru i bleidleisio (Gwasanaeth Llywodraeth Ganolog).</p>					
20	AC 2.11	Nifer y bobl sy'n ymweld â thudalennau arweiniad ar fformatau gwahanol	NEWYDD	*	-
<p>*Yn dilyn ystyriaeth bellach, ystyriwyd nad oedd y mesur hwn yn addas ac nid oedd yn bosib ei gasglu. Mae mesur mwy addas a pherthnasol yn cael ei ystyried.</p>					
21	AC 2.12	Nifer y cwynion a gadarnhawyd a oedd yn ymwneud â chydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y cyngor/Safonau'r Gymraeg.	1 (yn rhannol) allan o 3	2 allan o 4	↔

Amcan Cydraddoldeb 2: Gwella mynediad at wybodaeth drwy ddiwallu anghenion aelodau grwpiau gwarchoddedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill					
Rhif	Cyf.	Mesur	2016-2017	2017-2018	Cyfeiriad Gwelliant
		Derbyniwyd 3 cwyn drwy Gomisiynydd y Gymraeg; cadarnhawyd un gŵyn ond mae'r ddwy arall yn aros am benderfyniad. Derbyniwyd y gŵyn sy'n weddill yn uniongyrchol gan y cyngor; cadarnhawyd y gŵyn, anfonwyd ymddiheuriad a sicrwydd bod gweithdrefnau ar waith i sicrhau y cydymffurfir â safonau'r Gymraeg mewn perthynas â gohebiaeth yn y dyfodol.			

Amcan Cydraddoldeb 3: Gwella mynediad at wasanaethau drwy ddiwallu anghenion aelodau grwpiau gwarchoddedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill - y Gwasanaethau Cymdeithasol					
Rhif	Cyf.	Mesur	2016-2017	2017-2018	Cyfeiriad Gwelliant
22	AC 3.1	Nifer yr oedolion a oedd yn derbyn gwasanaethau gan y Gwasanaethau i Oedolion ar 31 Mawrth 2017	2,567	2,900	-
23	AC 3.2	Nifer y plant a oedd yn derbyn gofal a chefnogaeth gan y Gwasanaethau Plant ar 31 Mawrth 2017	1,138	1,200	-
24	AC 3.3	Nifer y gofalwyr a aseswyd ar 31 Mawrth 2017	355	282	-
		Mae'n anodd mesur perfformiad asesiadau gofalwyr; mae pob gofalwr a nodwyd yn cael cynnig asesiad, fodd bynnag, dewis yr unigolyn yw p'un a ydynt am dderbyn y cynnig. Ym mhob achos, darperir gwybodaeth i'r gofalwyr am y gwahanol ddulliau o gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Ffocws y Gwasanaethau Gofalwyr yw darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth felly nid yw llawer o asesiadau gofalwyr yn arwain at wasanaeth.			

Amcan Cydraddoldeb 4: Monitro gwybodaeth a data yn effeithiol er mwyn nodi anfanteision a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig

Rhif	Cyf.	Mesur	2016-2017	2017-2018	Cyfeiriad Gwelliant
25	AC 4.1	Nifer yr Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb a gynhaliwyd ac yr adroddwyd amdanynt i'r Bwrdd Cabinet perthnasol	26	10	↓
		Nid oes unrhyw reswm amlwg am y lleihad yn niferoedd yr aseidiadau effaith cydraddoldeb a gynhaliwyd ac yr adroddwyd amdanynt. Gallai nifer o ffactorau gyfrannu at y lleihad hwn, gan gynnwys y lleihad posib yn nifer y polisiau newydd/diwygiedig yr adroddir amdanynt ac mae hefyd yn bosib bod y broses sgrinio wedi nodi nad oes angen asesiad effaith 'llawn'.			
26	AC 4.2	Nifer y bobl sy'n cymryd rhan yn y canlynol: Cymdeithas Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig a Du (BME)	6	10	↑
		Grŵp Gweithredu'r Rhwydwaith Anabledd	5	0	↓
Cymdeithas Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig a Du - y ffigur a ddyfynnwyd yw nifer yr ymddiriedolwyr ar y Pwyllgor Gweithredol.					
Grŵp Gweithredu'r Rhwydwaith Anabledd - mae'r grŵp wedi'i ddiddymu oherwydd salwch un o'r ddau aelod allweddol a arweiniodd at yr holl gyfrifoldeb yn cael ei roi ar yr aelod arall, ac nid oedd hyn yn gynaliadwy.					

Amcan Cydraddoldeb 5: Cyflwyno hyfforddiant i staff yn unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb					
Rhif	Cyf.	Mesur	2016-2017	2017-2018	Cyfeiriad Gwelliant
27	AC5.1	Nifer y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ar bob pwnc penodol	1319 (roedd 760 yn staff CNPT)	2406 (roedd 1993 yn staff CNPT)	↑
Nid oedd y pynciau a gynigiwyd yn 2017-2018 yr un peth â'r rhai a gynigiwyd yn 2016-2017; fodd bynnag, roedd pob un yn ymwneud â chydaddoldeb neu Prevent.					

Amcan Cydraddoldeb 6: Gwella mynediad i'r amgylchedd drwy ddiwallu anghenion aelodau grwpiau gwarchoddedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill					
Rhif	Cyf.	Mesur	2016-2017	2017-2018	Cyfeiriad Gwelliant
28	AC6.1	Nifer y cwynion a dderbyniwyd o ran hygyrchedd.	0	0	↔
29	AC6.2	% y cwynion a gadarnhawyd o ran hygyrchedd	0	0	↔
30	AC6.3	% yr oedolion 60+ oed sy'n meddu ar docyn bws rhatach	93.75%	95.15%	↑
31	AC6.4	Nifer y teithiau sgwteri symudedd a drefnwyd gan Shopmobility Castell-nedd Port Talbot	2,900 4,901	2,793 4,561	↓

Amcan Cydraddoldeb 6: Gwella mynediad i'r amgylchedd drwy ddiwallu anghenion aelodau grwpiau gwarchoddedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill

Rhif	Cyf.	Mesur	2016-2017	2017-2018	Cyfeiriad Gwelliant
		Castell-nedd - nid yw'r sgwteri'n cael eu defnyddio gymaint â'r lefelau blaenorol sy'n rhannol am fod angen i gwsmeriaid dalu am barcio erbyn hyn (roedd hyn am ddim pan oedd y gwasanaeth yn ei leoliad blaenorol) ac mae'r lleoliad newydd yn bellach o'r dref ac mae'r cwsmeriaid yn agored i'r tywydd garw heb unrhyw loches. Port Talbot - mae'r niferoedd ychydig yn is sy'n cyd-fynd â nifer yr ymwelwyr â'r ganolfan siopa.			
32	AC6.5	Nifer y cwsmeriaid sydd wedi cofrestru gyda Shopmobility Castell-nedd	110	138	↑
		Port Talbot	261	213	↓
		Mae cwsmeriaid yn cofrestru ar gyfradd well na Chastell-nedd ond mae'n bwysig nodi nad ydynt yn defnyddio'r sgwteri gymaint, yn enwedig ym Mhort-Talbot lle nad oes cwsmeriaid rheolaidd yn defnyddio'r gwasanaeth 3 neu 4 gwaith yr wythnos fel yr oeddent yn flaenorol.			

Amcan Cydraddoldeb 7: Lleihau bylchau ym mherfformiad addysgol disgyblion sy'n deillio o'u nodweddion gwarchoddedig

Rhif	Cyf.	Mesur	2016-2017	2017-2018	Cyfeiriad Gwelliant
33	AC7.1	% y merched sy'n cyflawni Deilliant 5+ mewn llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen	89.20%	79.42%	↓
		% y bechgyn sy'n cyflawni Deilliant 5+ mewn llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen	78.02%	66.27%	↓
34	AC7.2	% y merched sy'n cyflawni Deilliant 5+ mewn rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen	88.41%	79.18%	↓
		% y bechgyn sy'n cyflawni Deilliant 5+ mewn rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen	82.52%	71.92%	↓
35	AC7.3	% y merched sy'n cyflawni Lefel 4+ mewn llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 2	91.21%	90.49%	↓
		% y bechgyn sy'n cyflawni Lefel 4+ mewn llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 2	83.75%	84.21%	↑
36	AC7.4	% y merched sy'n cyflawni Lefel 4+ mewn rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 2	90.03%	90.35%	↑
		% y bechgyn sy'n cyflawni Lefel 4+ mewn rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 2	85.18%	87.93%	↑
37	AC7.5	% y merched sy'n cyflawni Lefel 5+ mewn llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 3	92.42%	90.89%	↓
		% y bechgyn sy'n cyflawni Lefel 5+ mewn llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 3	79.44%	78.31%	↓
38	AC7.6	% y merched sy'n cyflawni Lefel 5+ mewn rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 3	88.71%	86.79%	↓
		% y bechgyn sy'n cyflawni Lefel 5+ mewn rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 3	80.24%	81.00%	↑

Amcan Cydraddoldeb 7: Lleihau bylchau ym mherfformiad addysgol disgyblion sy'n deillio o'u nodweddion gwarchoddedig					
Rhif	Cyf.	Mesur	2016-2017	2017-2018	Cyfeiriad Gwelliant
39	AC7.7	% y merched sy'n cyflawni Lefel 2 mewn llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 4	74.36%	74.06%	↓
		% y bechgyn sy'n cyflawni Lefel 2 mewn llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 4	53.08%	52.43%	↓
40	AC7.8	% y merched sy'n cyflawni Lefel 2 mewn rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 4	60.62%	60.75%	↑
		% y bechgyn sy'n cyflawni Lefel 2 mewn rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 4	58.21%	56.47%	↓
41	AC7.9	% presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd:	94.69%	94.14%	↓
		merched:	94.72%	94.30%	↓
		bechgyn:	94.65%	93.99%	↓
		disgyblion nad ydynt yn wyn Prydeinig	94.30%	93.45%	↓
		disgyblion sy'n wyn Prydeinig	94.74%	94.20%	↓
		disgyblion ag anghenion addysgol arbennig	93.70%	92.92%	↓
		disgyblion heb anghenion addysgol arbennig	95.08%	94.62%	↓
		disgyblion sy'n deithwyr	85.42%	81.14%	↓
		disgyblion nad ydynt yn deithwyr	94.72%	94.46%	↓

Amcan Cydraddoldeb 7: Lleihau bylchau ym mherfformiad addysgol disgyblion sy'n deillio o'u nodweddion gwarchoddedig

Rhif	Cyf.	Mesur	2016-2017	2017-2018	Cyfeiriad Gwelliant
42	AC7.10	% presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd	93.64%	93.48%	↓
		merched:	93.79%	93.56%	↓
		bechgyn:	93.48%	93.40%	↓
		disgyblion nad ydynt yn wyn Prydeinig	94.67%	94.03%	↓
		disgyblion sy'n wyn Prydeinig	93.59%	93.44%	↓
		disgyblion ag anghenion addysgol arbennig	91.54%	91.27%	↓
		disgyblion heb anghenion addysgol arbennig	94.52%	94.28%	↓
		disgyblion sy'n deithwyr	85.63%	78.05%	↓
		disgyblion nad ydynt yn deithwyr	93.42%	93.51%	↑
43	AC7.11	Nifer y gwaharddiadau parhaol yn ystod y flwyddyn academaidd mewn ysgolion cynradd	1	1	↔
		Bechgyn:	1	1	↔
		Merched:	0	0	↔
		AAA	0	0	↔
		Teithwyr	0	0	↔
		BME	0	0	↔

Amcan Cydraddoldeb 7: Lleihau bylchau ym mherfformiad addysgol disgyblion sy'n deillio o'u nodweddion gwarchoddedig					
Rhif	Cyf.	Mesur	2016-2017	2017-2018	Cyfeiriad Gwelliant
44	AC7.12	Nifer y gwaharddiadau parhaol yn ystod y flwyddyn academaidd mewn ysgolion cynradd	12	9	↑
		Bechgyn:	11	7	↑
		Merched:	1	2	↓
		AAA	6	2	↑
		Teithwyr	0	0	↔
		BME	0	0	↔

Amcan Cydraddoldeb 8: Sicrhau bod ein prosesau cyflogi a recriwtio'n hybu tegwch a chydraddoldeb i bawb					
Rhif	Cyf.	Mesur	2016-2017	2017-2018	Cyfeiriad Gwelliant
45	AC8.1	Nifer y staff sy'n mynd i hyfforddiant recriwtio	21	76	↑
46	AC8.2	% y cyfranogwyr a fu mewn sesiynau hyfforddiant a oedd yn ystyried bod eu gwybodaeth wedi gwella	87%	100%	↑
47	AC8.3	Nifer y cwynion recriwtio	0	0	↔
48	AC8.4	Nifer y dechreuwyr newydd sy'n dechrau uwchben pwynt isaf y raddfa	24	31	↑